***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 713

# Gorchymyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 2) 2016

**Y diwrnod penodedig**

**2.**—(1) Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym at y diben a bennir ym mharagraff (2) yw 11 Gorffennaf 2016—

(a) adran 67 (Gofal Cymdeithasol Cymru);

(b) adran 68 (amcanion GCC);

(c) adran 73(1) a (2) (rheolau: cyffredinol);

(d) adran 75 (ymgynghori cyn gwneud rheolau etc.).

(2) Mae'r darpariaethau ym mharagraff (1) wedi eu dwyn i rym i'r graddau sy'n ofynnol, ac at ddiben galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflawni ei ddyletswydd i ymgynghori o dan adran 75(2) o'r Ddeddf yn effeithiol.